***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 2680 (Cy.186)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *27 Medi 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Medi 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 36A, 156A a 171C o Ddeddf Tai 1985(**1**), ac adrannau 12A a 17(2) i (5) o Ddeddf Tai 1996(**2**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru:

(**1**) 1985 p.68. Mewnosodwyd adran 36A gan adran 197 o Ddeddf Tai 2004 (p.34) a mewnosodwyd adran 156A gan adran 188 o'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd adran 171C gan adran 8(1), (3) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63) ac fe'i diwygiwyd gan adran 127(2), (3) o Ddeddf Tai 1988 (p.50), a chan baragraff 19 o Atodlen 21 i Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28), ac a ddiddymwyd yn rhannol gan Atodlen 22 i Ddeddf 1993. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 171C, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 36A a 156A yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru yn rhinwedd adran 267 o Ddeddf Tai 2004 ac O.S. 1999/672.

(**2**) 1996 p.52. Mewnosodwyd adran 12A gan adran 200 o Ddeddf Tai 2004. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 17(2)-(5), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 12A yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o ran Cymru, yn rhinwedd adran 267 o Ddeddf Tai 2004 ac O.S. 1999/672.